



Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD IAU, 2AIL RHAGFYR, 2021

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHUYD Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021)

Geraint Owen
Pennaeth Gwasnaethau Democratiaeth

www.gwynedd.llyw.cymru


DYDD MERCHER, 24 TACHWEDD 2021

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 2 RHAGFYR 2021

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 2AIL RHAGFYR, 2021** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Geraint Owen". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping tail on the final letter.

Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

5 - 26

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

7. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2022/23

27 - 32

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM 2022/23

33 - 52

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

9. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH AMRYWIAETH

53 - 59

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

10. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - TREFNIADAU AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR I'R DYFODOL

60 - 76

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

**11. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - 77 - 81
PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

12. PENODI SWYDDOG ADRAN 151 NEWYDD

Adroddiad i ddilyn.

13. RHYBUDDION O GYNNIG

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GETHIN GLYN
WILLIAMS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Gethin Glyn Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

Dros y canrifoedd, defnyddiwyd tiroedd ac adnoddau Cymru i echdynnu pob math o nwyddau er budd eraill.

Y 'nwyddau' diweddaraf sy'n cael eu cymryd o'n tirwedd yw'r potensial o garbon, gan fod cwmnïau buddsoddi o'r tu allan i Gymru yn prynu ffermydd, yn derbyn grantiau mawr Glastir – Creu Coetir (GWC) a defnyddio'r tir i greu coedwigoedd i unioni eu hallyriadau carbon.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- **Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.**
- **Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.**

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru.